

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn Answers to Questions not reached in Plenary

[R] *yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.*

[R] signifies that the Member has declared an interest.

[W] *yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.*

[W] signifies that the question was tabled in Welsh.

Cynnwys Contents

Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid Questions on Local Government to the Finance Minister	1
Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Education and Lifelong Learning	2

Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog Cyllid Questions on Local Government to the Finance Minister

Twyll Etholiadol yn Etholiadau Awdurdodau Lleol Electoral Fraud in Local Authority Elections

C12 Rhodri Glyn Thomas: Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda Gweinidogion y DU ynglŷn â thwyll etholiadol yn ystod etholiadau awdurdodau lleol? OAQ0246(LGP)

Q12 Rhodri Glyn Thomas: What discussions has the Minister held with UK Government Ministers regarding electoral fraud during local authority elections? OAQ0246(LGP)

The Finance Minister (Sue Essex): As responsibility for the conduct of elections is not devolved, no discussions have been held with the UK Government on this. We will continue to work with the Electoral Commission and stakeholders to promote best practice on this serious matter.

Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex): Gan nad yw'r cyfrifoldeb dros gynnal etholiadau yn fater sydd wedi'i ddatganoli, ni chynhaliwyd unrhyw drafodaethau gyda Llywodraeth y DU ar hyn. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r Comisiwn Etholiadol a chyfranddeiliaid eraill i hyrwyddo arfer da yn y maes hollbwysig hwn.

Awdurdod Lleol Caerfyrddin Carmarthen Local Authority

C13 Rhodri Glyn Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y pwysau sydd ar awdurdod lleol Caerfyrddin mewn perthynas â chostau? OAQ0237(LGP)

Q13 Rhodri Glyn Thomas: Will the Minister make a statement on cost pressures of Carmarthen local authority? OAQ0237(LGP)

Sue Essex: The expenditure sub group of the consultative forum on finance provides the mechanism for considering future cost pressures for local government across Wales.

Sue Essex: Mae is-grŵp gwariant y fforwm ymgynghorol ar gyllid yn darparu'r mecanwaith i ystyried y pwysau mewn perthynas â chostau yn y dyfodol ar gyfer llywodraeth leol ledled Cymru.

Cyfraddau'r Dreth Gyngor yn 2005

Council Tax Rates for 2005

Q14 Alun Cairns: Will the Minister make a statement on council tax rates for 2005? OAQ0259(LGP)

C14 Alun Cairns: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfraddau'r dreth gyngor yn 2005? OAQ0259(LGP)

Sue Essex: The level of council tax is a matter for each individual authority. The average increase in Band D council tax in Wales is 3.8 per cent. This is the lowest increase since the introduction of unitary authorities in Wales in 1996-97.

Sue Essex: Mater i bob awdurdod unigol yw lefel y dreth gyngor. Cyfartaledd y cynnydd yn y dreth gyngor ar gyfer Band D yng Nghymru yw 3.8 y cant. Dyma'r cynnydd isaf ers cyflwyno'r awdurdodau unedol yng Nghymru yn 1996-97.

Effaith y Dreth Gyngor ar y rhai sydd ar Incwm Isel The Impact of Council Tax on Low Income Earners

Q15 Janet Ryder: What assessment has the Minister made on the impact of council tax on low income earners? OAQ0241(LGP)

C15 Janet Ryder: Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effaith y dreth gyngor ar y rhai sydd ar incwm isel? OAQ0241(LGP)

Sue Essex: Details of what individuals earn are not held by the Assembly Government, so such an assessment is not possible. Latest estimates, using 2002-03 statistics, show that around 271,000 people claim council tax benefit in Wales. Take-up appears highest among lone parents, where it is between 90 and 98 per cent, and lowest among pensioners, where it is between 56 and 62 per cent.

Sue Essex: Nid yw manylion ynghylch cyflogau unigolion yn cael eu cadw gan Lywodraeth y Cynulliad, ac felly ni ellir gwneud asesiad o'r fath. Mae'r amcangyfrifon diweddaraf, sy'n defnyddio ystadegau 2002-03, yn dangos bod oddeutu 271,000 o bobl yn hawlio budd-dâl y dreth gyngor yng Nghymru. Mae lefel uchaf y rhai sy'n hawlio'r budd-dâl i'w ganfod ymysg unig rieni, gyda rhwng 90 a 98 y cant yn ei hawlio. Mae'r lefel isaf i'w ganfod ymysg pensïynwyr, gyda'r lefel sy'n ei hawlio rhwng 56 a 62 y cant.

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes Questions to the Minister for Education and Lifelong Learning

Gweithredu'r Cytundeb ar Lwyth Gwaith Athrawon The Implementation of the Teachers' Workload Agreement

Q11 Janet Ryder: Will the Minister make a statement on the budget for the implementation of the teachers' workload agreement? OAQ0331(ELL)

C11 Janet Ryder: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gyllideb ar gyfer gweithredu'r cytundeb ar lwyth gwaith athrawon? OAQ0331(ELL)

The Minister for Education and Lifelong Learning (Jane Davidson): We provided an identified £33 million last year, with a further £25 million this year—making a total of £58 million, rising to £70 million by 2006-07—through the local government revenue settlement to enable schools to restructure and train their workforce to meet the contractual obligations of the national

Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson): Darparwyd £33 miliwn gennym y llynedd, gyda £25 miliwn pellach eleni—sy'n gyfanswm o £58 miliwn, yn cynyddu i £70 miliwn erbyn 2006-07—drwy gyfrwng y setliad refeniw llywodraeth leol, er mwyn galluogi ysgolion i ailstrwythuro a hyfforddi eu gweithlu i gydymffurfio â goblygiadau contract y

agreement.

cytundeb cenedlaethol.

Cyfradd Myfyrwyr sy'n Gadael y Brifysgol yn Gynnar The Annual University Dropout Rate

Q12 Jonathan Morgan: What is the annual university drop-out rate in Wales? OAQ0271(ELL)

C12 Jonathan Morgan: Faint o fyfyrwyr sy'n gadael y brifysgol yn gynnar yng Nghymru? OAQ0271(ELL)

Jane Davidson: The latest available information relates to full-time first degree entrants for 2001-02, 9.5 per cent of whom did not continue beyond their first year of study.

Jane Davidson: Mae'r wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael yn ymwneud â'r myfyrwyr amser-llawn gradd gyntaf a gychwynnodd ar eu cyrsiau yn 2001-02. O'r rheini, ni pharhaodd 9.5 y cant â'u cwrs ar ôl y flwyddyn gyntaf.

Myfyrwyr Aeddfed mewn Addysg Uwch Mature Students in Higher Education

Q13 John Griffiths: Will the Minister make a statement on the participation of mature students in higher education in Wales? OAQ0339(ELL)

C13 John Griffiths: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfranogiad myfyrwyr aeddfed mewn addysg uwch yng Nghymru? OAQ0339(ELL)

Jane Davidson: In 2002-03, 24.2 per cent of full-time undergraduate entrants in Wales were over the age of 21 at the time of their enrolment. This is higher than the UK average, and higher than the proportion of mature students in any other UK country.

Jane Davidson: Yn ystod 2002-03, roedd 24.2 y cant o'r israddedigion amser-llawn yng Nghymru yn 21 oed neu'n hŷn adeg eu cofrestru. Mae hyn yn uwch na ffigur cyfartalog y DU, ac yn uwch na chyfran y myfyrwyr hŷn a geir yn unrhyw un o wledydd eraill y DU.

Staff Ysgol School Staff

Q14 William Graham: Will the Minister make a statement on the number of people involved in classroom activities that are not qualified teachers? OAQ0280(ELL)

C14 William Graham: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y bobl sy'n ymwneud â gweithgareddau ystafell ddosbarth nad ydynt yn athrawon cymwysedig? OAQ0280(ELL)

Jane Davidson: Published statistic show that in January 2004, there were 12,717 support staff working in schools in Wales. This was an increase of some 400 over the previous year.

Jane Davidson: Mae'r ystadegau sydd wedi'u cyhoeddi'n dangos bod 12,717 o staff cymorth yn gweithio mewn ysgolion yng Nghymru ym mis Ionawr 2004. Roedd hyn yn gynydd o oddeutu 400 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Cytundeb ar Lwyth Gwaith Athrawon (Goblygiadau Ariannu) The Teachers' Workload Agreement (Funding Implications)

C15 Owen John Thomas: A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar oblygiadau ariannu'r cytundeb ar lwyth gwaith athrawon i awdurdodau lleol? OAQ0268(ELL)

Q15 Owen John Thomas: Will the Minister make a statement on the funding implications for local authorities of the teachers' workload agreement? OAQ0268(ELL)

Jane Davidson: We have made substantial funding available to local authorities in recognition of the cost of the agreement. Each local education authority must decide, in consultation with their school budget forum, how to distribute this between schools in their area.

Jane Davidson: Yr ydym wedi sicrhau bod arian sylweddol ar gael i awdurdodau lleol i gydnabod cost y cytundeb. Rhaid i bob AALL benderfynu, drwy ymgynghori â'u fforwm cyllideb ysgolion, sut i ddsbarthu'r arian hwn rhwng ysgolion eu hardal.